



Ffioedd y Llysoedd Sifil a'r Llysoedd Teulu

O fis Awst ymlaen

Gwybodaeth bwysig

Mae'r daflen hon yn pennu detholiad o ffioedd y llysoedd sifil a'r llysoedd teulu. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr nac yn awdurdod ar ffioedd. I gael rhestr lawn o'r ffioedd a godir yn y llys sifil a'r llys teulu, edrychwch ar EX50AHMCTS ar **hmctsformfinder.justice.gov.uk**

Mae rhestr lawn o holl ffioedd y llysoedd ar gael mewn Offerynnau Statudol (OS) a elwir yn orchmynion ffioedd a gellir eu gweld ar-lein yn **www.legislation.gov.uk**

Ewch ar Formfinder i gael rhestr o holl ffurflenni'r llysoedd.

<http://hmctsformfinder.justice.gov.uk/HMCTS/FormFinder.do>

Os ydych yn ansicr pa ffurflen sydd arnoch ei hangen, gallwch chwilio am eich mater ar www.gov.uk neu gael cyngor cyfreithiol gan gyfreithiwr neu Cyngor ar Bopeth, www.citizensadvice.org.uk

Os ydych yn ansicr pa ffurflen rydych ei hangen, gallwch chwilio am eich mater ar www.gov.uk neu gael cyngor cyfreithiol gan gyfreithiwr neu Cyngor ar Bopeth, www.citizensadvice.org.uk

Mae'r ffioedd llys yn y daflen hon yn berthnasol i'r Uchel Lys, y Llys Sirol a'r Llys Teulu, a'r un fath ymhob un, oni nodir fel arall. Bydd eich llys lleol yn gallu eich helpu i ddod o hyd i unrhyw ffi sydd heb ei chynnwys yn y daflen hon.

Amser ar gyfer talu ffioedd

Mae ffioedd y llys yn daladwy ar yr adeg pan fyddwch yn ffeilio unrhyw ddogfen neu pan fyddwch yn cychwyn unrhyw broses lle mae'n rhaid talu ffi, oni nodir fel arall.

Dulliau talu

Mae llysoedd yn derbyn taliad gyda cherdyn debyd neu gerdyn credyd, arian parod, archeb bost neu siec, i'w gwneud yn daladwy i '**Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM.**' Os byddwch yn talu â siec a bod honno'n cael ei gwrthod, bydd y llys yn cymryd camau i adennill yr arian. Os na fyddwch yn talu, bydd eich achos yn cael ei ohirio neu hyd yn oed ei ddileu.

Gallwch dalu gyda cherdyn debyd neu gerdyn credyd dros y ffôn drwy gysylltu â'r llys neu ddarparu eich manylion cyswllt ar gyfer gwneud taliad a darparu unrhyw waith papur angenrheidiol. Peidiwch ag anfon eich manylion banc i'r llys.

Beth os na allaf fforddio talu ffi'r llys?

Efallai na fydd yn rhaid i chi dalu ffi, neu efallai cewch ostyngiad os oes gennych swm bychan o gynilion a buddsoddiadau, yn derbyn budd-daliadau penodol neu ar incwm isel. Weithiau gelwir hyn yn 'dileu ffi.'

Gallwch wneud cais am help gyda ffioedd llys a thriwlynlys ar-lein yn www.gov.uk/help-with-court-fees neu drwy'r ffurflen 'EX160A – Gwneud cais am help i dalu ffioedd' a'r cyfarwyddyd 'EX160A – Sut i wneud cais am help i dalu ffioedd'.

Ad-daliadau

Os ydych wedi gwneud cais i gychwyn hawliad drwy'r post, a bod y diffynnydd yn setlo'r anghydfod cyn i'r llys neu'r ganolfan fusnes brosesu'ch cais, bydd gennych hawl i gael ad-daliad dim ond os byddwch wedi rhoi gwybod inni na ddylai'r hawliad gael ei gychwyn.

Os bydd eich achos yn cael ei setlo rhowch wybod i ganolfan wrandawiadau neu ganolfan fusnes y Llys Sirol perthnasol trwy e-bost neu dros y ffôn. Gellir dod o hyd i'r manylion cyswllt yn www.gov.uk/find-court-tribunal

Dylech gadw cofnod o'r ffaith eich bod wedi rhoi gwybod inni.

Os ydy'ch hawliad wedi'i gychwyn yn barod, gallwch adennill cost eich ffi llys oddi wrth y diffynnydd.

Peidiwch â chanslo siec neu daliad â cherdyn i Wasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM. Drwy ganslo siec neu daliad, gallwn hawlio'r ffi oddi wrthy'ch chi fel dyled sifil.

Ni roddir ad-daliadau ar gyfer unrhyw gais neu hawliad dyblyg a dderbynnir gan y llys gan ei fod yn cael ei anfon mewn sawl ffordd (megis drwy'r post a drwy e-bost) neu'n cael ei anfon sawl gwaith. Mae gan Reolwr y Llys ddisgresiwn i gymeradwyo ad-daliadau sy'n ganlyniad i gamgymeriad dilys.

Os ydych eisiau gwneud cais am gael ffi wedi'i had-dalu, ysgrifennwch at ganolfan fusnes neu ganolfan wrandawiadau'r Llys Sirol perthnasol (mae eu manylion ar gael ar Court and Tribunal Finder www.gov.uk/find-court-tribunal) yn egluro pam yr ydych yn credu y dylech gael ad-daliad. Dylid gwneud ceisiadau cyn gynted ag y bo modd ar ôl talu'r ffi.

Ni fydd ffioedd yn cael eu had-dalu ar gyfer hawliadau sy'n cael eu cychwyn gan ddefnyddio MCOL na PCOL oni bai bod gwall wedi digwydd yn y system, h.y. lle mae ffi wedi cael ei chodi ddwywaith.

Ni fydd ad-daliadau a geisir o dan y cynllun dileu ffioedd yn cael eu darparu yng nghyswllt ffioedd sy'n cael eu talu ar MCOL.

Gwasanaethau ar-lein

Mae gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ddau wasanaeth ar y we: MCOL (Hawlio Arian Ar-lein) ar gyfer rhai hawliadau am arian hyd at £99,999.99, a PCOL (Hawlio Meddiant Ar-lein) ar gyfer meddiannau'n ymwneud ag ôl-ddyledion morgais neu rent. Gallwch ddefnyddio'r naill neu'r llall o'r prosesau syml, hwylus a diogel hyn a thalu llai o ffi ar-lein gyda cherdyn debyd neu gerdyn credyd.

I gael rhagor o wybodaeth, gofynnwch i aelod o staff y llys neu edrychwch ar ein gwefannau:

www.moneyclaim.gov.uk

www.possessionclaim.gov.uk

Tudalen Gynnwys

Ffioedd y Llysoedd sifil

- | | | |
|----|---|------------|
| 1. | Cyflwyno hawliadau | Tudalen 5 |
| 2. | Ffioedd cyffredinol gan gynnwys ceisiadau a ffioedd gwrandawiadau | Tudalen 7 |
| 3. | Apeliadau | Tudalen 10 |
| 4. | Ansoffedd | Tudalen 10 |
| 5. | Ffioedd eraill, gan gynnwys copïau o ddogfennau a chostau | Tudalen 11 |
| 6. | Gorfodaeth Sifil | Tudalen 13 |
| 7. | Ffioedd Sifil y Llysoedd Ynadon | Tudalen 15 |

Ffioedd y Llysoedd Teulu

- | | | |
|-----|---|------------|
| 7. | Priodas a Phartneriaeth Sifil | Tudalen 16 |
| 8. | Gorchmynion ariannol | Tudalen 16 |
| 9. | Ceisiadau am waharddebau | Tudalen 17 |
| 10. | Ceisiadau yng nghyswllt priodas dan orfod | Tudalen 17 |
| 11. | Ceisiadau dan y Ddeddf Plant | Tudalen 17 |
| 12. | Mabwysiadu | Tudalen 18 |
| 13. | Ceisiadau mewn achosion | Tudalen 19 |
| 14. | Apeliadau | Tudalen 19 |
| 15. | Ffioedd teulu eraill, gan gynnwys copïau o ddogfennau a chostau | Tudalen 20 |
| 16. | Gorfodaeth Teulu | Tudalen 21 |
| 17. | Chwiliadau | Tudalen 23 |

Ffioedd y llysoedd sifil

Cyflwyno hawliadau

Cychwyn eich hawliad

Hawliadau am arian – gorchymyn ffioedd 1.1-1.2

I gychwyn hawliad am arian, mae'r ffioedd yn seiliedig ar y swm a hawlir, gan gynnwys llog. Ar gyfer hawliadau sy'n cael eu cychwyn gan y llys, talgrynnwch ffracsiwn cyfan y geiniog i lawr i'r geiniog agosaf. Enghraifft: Bydd ffi a gyfrifir fel £1050.5096 yn cael ei thalgrynnu i lawr i ffi daladwy o £1050.50:

Gwerth eich hawliad				Ffi sy'n daladwy	
				Hawliad a gychwynnir mewn llys	Ffeiliwyd drwy SDT/ MCOL*
Hyd at	£300			£35	£25
Mwy na	£300	ond ddim yn fwy na	£500	£50	£35
Mwy na	£500	ond ddim yn fwy na	£1,000	£70	£60
Mwy na	£1,000	ond ddim yn fwy na	£1,500	£80	£70
Mwy na	£1,500	ond ddim yn fwy na	£3,000	£115	£105
Mwy na	£3,000	ond ddim yn fwy na	£5,000	£205	£185
Mwy na	£5,000	ond ddim yn fwy na	£10,000	£455	£410
Mwy na	£10,000	ond ddim yn fwy na	£15,000	5% o werth yr hawliad	4.5% o werth yr hawliad
Mwy na	£15,000	ond ddim yn fwy na	£50,000		
Mwy na	£50,000	ond ddim yn fwy na	£100,000		
Mwy na	£100,000	ond ddim yn fwy na	£150,000		Amh
Mwy na	£150,000	ond ddim yn fwy na	£200,000		Amh
Mwy na	£200,000			£10,000	Amh

*Y swm uchaf ar gyfer Trosglwyddo Data Diogel (SDT) neu Hawlio Arian Ar-lein (MCOL) ydy £99,999.99

System ddiogel yw **Trosglwyddo Data Diogel (SDT)** i alluogi cwsmeriaid sy'n cychwyn mewn swmp i lwytho i fyny a throsglwyddo ffeiliau data yn uniongyrchol o'u systemau i systemau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Hawliadau anariannol

I gychwyn hawliad am feddiant – gorchymyn ffioedd 1.4

Hawliadau Meddiant Yr Uchel Lys	£480
Llys Sirol - meddiannu	£355
Gorchymyn Hawlio Meddiant Ar-lein (PCOL)	£325

(Dim ond ar gyfer meddiannau'n ymwneud ag ôl-ddyledion rhent neu forgais y cewch ddefnyddio PCOL).

<p>I wneud cais am rywbeth ar wahân i arian neu eiddo (e.e. gwaharddebau sifil, gwaharddebau nwy, gwaharddebau ymddygiad gwrthgymdeithasol) mae'r ffioedd yn seiliedig ar lle'r ydych yn cychwyn eich cais - gorchymyn ffioedd 1.5</p> <p>“Yr Uchel Lys (gan gynnwys hawliadau meddiant) Y Llys Sirol</p> <p>Os byddwch yn gwneud cais am waharddeb a hawliad am iawndal, rhaid i chi dalu'r ddwy ffi llys.</p> <p>Enghraifft: ffi'r Llys Sirol neu ffi'r Uchel Lys (ffi 1.5 uchod) ynghyd â'r ffi hawlio arian berthnasol (cyhoeddodd y llys ffi'r hawliad 1.1 ar dudalen 5).</p>	<p>£528 £308</p>
Yr Uchel Lys (gan gynnwys hawlio meddiant)	£528
Y Llys Sirol	£308
<p>Os ydych yn cyflwyno cais am hawliad sydd ddim yn cynnwys arian (ac eithrio hawliad am feddiant) a hawliad am iawndal, yna mae angen talu ffi y llys ar gyfer y ddau.</p> <p>Holwch y llys i weld a yw hyn yn cael effaith ar eich achos.</p> <p>Fffioedd eraill sy'n gysylltiedig â cychwyn hawliad. Cychwyn achos yn erbyn parti neu bartïon nad ydynt wedi'u henwi yn yr achos –</p>	
Gorchymyn ffioedd 1.6	£55
Caniatâd i gychwyn achos – gorchymyn ffioedd 1.8(a)	£55

Sylwch nad yw'r ffioedd yn yr adran hon yn cael eu talu mewn perthynas â cheisiadau i gychwyn achos o dan y Ddeddf Cwmnïau neu mewn achosion ansolfedd. Yn lle hynny, ewch i dudalen 10.

Gwrth-hawliadau a hawliadau ychwanegol

- **Hawliadau arian** - mae ffi'r llys sy'n daladwy (fel y dangosir ar dudalen 5) wedi'i selio ar werth y gwrth-hawliad neu hawliadau ychwanegol. Os cafodd yr hawliad gwreiddiol ei gychwyn mewn llys, mae ffi cychwyn y llys i'w talu. Os cafodd yr hawliad ei gychwyn drwy Hawlio Arian Ar-lein (MCOL) neu drwy Ganolfan Fusnes y Llys Sirol (CCBC), ffioedd gostyngol MCOL sydd i'w talu.
- Os ydych am ddiwygio eich cais, bydd angen i chi wneud cais: Cyfeiriwch at dudalen 9 ar gyfer ffioedd ceisiadau cyffredinol. Bydd y ffi yn dibynnu ar p'un a yw'r hawliad wedi'i gyflwyno, ac felly, p'un a yw'r cais ar yr hysbysiad. Os byddwch yn diwygio'r swm a hawlir bydd arnoch angen talu'r gwahaniaeth am ffi'r llys sy'n daladwy fel y nodir yn nhudalen 5.
- **Hawliadau anariannol** - mae ffi'r llys sy'n daladwy yn dibynnu ar ble y cafodd yr hawliad gwreiddiol ei gychwyn, naill ai yn yr Uchel Lys neu Lys Sirol. Mae'r ffioedd llys i'w gweld uchod.

Achos costau

Ar gyfer ffioedd llys sy'n gysylltiedig â mater costau yn unig neu achos asesu costau, ewch i dudalen 12.

Ffioedd cyffredinol ar gyfer achosion sifil

Mae'r ffioedd ar dudalen 5, er mwyn cychwyn hawliad, i'w talu gan yr hawlydd. Mae'r ffioedd gwrandawiadau yn daladwy a welir isod gan yr hawlydd, oni bai fod yr achos yn parhau gyda'r gwrth-hawliad yn unig, os felly, mae'r ffioedd gwrandawiad yn daladwy gan y diffynnydd.

Ffioedd Gwrandawiadau – gorchymyn ffioedd 21

Trac Hawliadau Bychain lle y mae'r swm sy'n cael ei hawlio:

hyd at £300	£25
rhwng £300.01 a £500	£55
rhwng £500.01 a £1,000	£80
rhwng £1,000.01 a £1,500	£115
rhwng £1,500.01 a £3,000	£170
yn fwy na £3,000	£335

Cyfeiriwch at daflen EX306 y llys - Y Trac Hawliadau Bychain yn y llysoedd sifil am ragor o wybodaeth.

Hawliad trac cyflym	£545
Hawliad amldrac	£1,090

Cyfeiriwch at daflen EX305 y llys - Y Trac Cyflym a'r Amldrac mewn llysoedd sifil am ragor o wybodaeth.

- Mae'n rhaid i chi dalu'r ffi gwrandawriad i'r llys neu ffeilio cais am Help i Dalu Ffioedd erbyn y dyddiad a nodir yn y gorchymyn.
- Bydd methu â thalu'r ffi neu wneud cais priodol am Help i Dalu Ffioedd yn golygu caiff yr hawliad/gwrth-hawliad ei ddileu ar unwaith heb orchymyn arall a bydd y gwrandawriad yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr.
- Os yw eich hawliad wedi'i ddileu, ni fydd yn bodoli mwyach. Cewch, os ydych yn dymuno, ffeilio cais i adfer yr hawliad. Fodd bynnag, sylwch y bydd ffi yn gysylltiedig â'r cais ac, os bydd y llys yn caniatáu i'r cais gael ei dderbyn yn ôl, caiff y caniatâd hwnnw ei roi yn amodol ar dalu'r ffi gwrandawriad priodol neu gais am help i dalu ffioedd.
- Bydd y gwrandawriad yn cael ei ddileu, mae ffi gwrandawriad gwrth-hawliad ond yn daladwy gan y diffynnydd (os yw'r gwrth-hawliad yn gweithredu ar ei ben ei hun).
- Ni ellir ad-dalu ffi'r gwrandawriad. Os yw'r partion yn setlo cyn mae'n amser i dalu'r ffi gwrandawriad, ni fydd ffi'r gwrandawriad yn daladwy.

Ceisiadau cyffredinol – gorchymyn ffioedd 2.4-2.8

- Cais ar rybudd pan nad oes ffi arall wedi'i phennu. £255
- Cais i osod dyfarniad Llys Sirol o'r neilltu. £255
- Cais drwy gydsyniad neu heb rybudd pan nad oes ffi arall wedi'i phennu. £100
 - ceisiadau i amrywio (diwygio/newid) neu ymestyn gwaharddeb i ddiogelu rhag aflonyddwch neu drais £50
 - ceisiadau i wneud taliad o gronfeydd sydd wedi eu talu yn y llys £50

Mae **gyda rybudd** yn golygu hysbysu'r ochr arall am y cais, ni waeth os oes gwrandawriad ai peidio.

Mae **heb rybudd** yn golygu peidio â hysbysu'r partïon arall am y cais, ni waeth os oes gwrandawriad ai peidio.

Os yw cais drwy gydsyniad neu heb rybudd yn cael ei wrthod ac yn cael ei roi ar yr hysbysiad, dylid talu gweddill y ffi i'r llys i brosesu'r cais ar yr hysbysiad.

- Cais i amrywio (diwygio/newid) dyfarniad (neu orchymyn), gohirio camau gorfodi neu ohirio gwarant i feddiannu neu aros yn writ yr Uchel Lys. £14
- Cais am wŷs neu am orchymyn i dyst fynychu'r llys. £21
- Cais am dystysgrif ad-dalu neu ganslo dyled dyfarniad. £14

Nid oes ffi i'w thalu ar gyfer gwneud cais drwy gysyniad i ohirio gwrandawriad os yw'r llys yn ei dderbyn o leiaf 14 diwrnod cyn dyddiad y gwrandawriad.

Ceisiadau swmp – Codir ffi am gais heb rybudd ar gyfer pob achos i amnewid neu newid enw parti.

Yr unig eithriad yw achosion CCBC lle mae ceisiadau swmpus yn awtomataidd ac o ganlyniad, dim ond un ffi sy'n daladwy ar gyfer bob cais gyda mwy nag un achos.

Apeliadau – gorchymyn ffioedd 2.2-2.3

Cyfeiriwch at daflen EX340 y llys – rwyf am apelio – beth ddylwn i ei wneud am ragor o wybodaeth.

Wrth ffeilio hysbysiad yr apelydd neu hysbysiad yr atebydd yn:

- Yr Uchel Lys £240
- Y Llys Sirol
 - Trac hawliadau bychain £120
 - Pob hawliad arall £140

Mae ffioedd eraill yn daladwy mewn achosion apêl lle mae ceisiadau'n cael eu gwneud. Nid yw'r ffioedd hyn yn berthnasol i apeliadau yn erbyn penderfyniad a wneir mewn achos asesu costau'n fanwl (gweler tudalen 9)

Achosion Ansoffedd – gorchymyn ffioedd 3.1-3.3

Deisebau methdaliad a dirwyn cwmni i ben

- Cyflwyno deiseb i wneud rhywun y mae arno arian i chi yn fethdalwr (deiseb credydwr). £280
- Cyflwyno deiseb dirwyn i ben (cwmnïau'n unig). £280
- Unrhyw ddeiseb arall lle nad oes ffi arall wedi'i phennu. £280

Dyma ond y ffioedd llys yw'r rhain. Mae swm ychwanegol, sef blaendal y Derbynnnydd Swyddogol, i'w dalu'r un pryd â ffi'r llys. Bydd y llys sy'n prosesu eich cais yn dweud wrthyfch faint fydd y blaendal.

Nodyn: Mae rhai achosion ansolfedd yn cael eu dyrannu i'r aml-drac a bydd rhaid talu'r ffioedd gwrandawriad aml-drac a nodir ar dudalen 5. Holwch y llys i weld a yw hyn yn effeithio ar eich achos chi.

Ceisiadau eraill

- Cais i newid trefniant gwirfoddol yn drefniant methdalau neu ddirwyn i ben – gorchymyn ffioedd 3.6 £160
- Cais ar rybudd mewn achos ansolfedd cyfredol lle nad oes ffi arall wedi'i phennu – gorchymyn ffioedd 3.12 £155
- Cais drwy gydsyniad neu heb rybudd mewn achos ansolfedd cyfredol lle nad oes ffi arall wedi'i phennu – gorchymyn ffioedd 3.11 £50
- Cais am dystysgrif rhyddhau o fethdaliad – gorchymyn ffioedd 3.4(a) £70
- Cais am gopi o dystysgrif rhyddhau o fethdaliad – gorchymyn ffioedd 3.4(b) £10

Chwiliadau methdaliadau

- Ar gyfer chwiliad cyffredinol yng nghofnodion yr Uchel Lys am bob 15 munud neu ran o 15 munud – gorchymyn ffioedd 10.3 £11
- Ar gyfer chwiliad personol, gan gynnwys lle bydd un o swyddogion y llys yn chwilio cofnodion cwmnïau a methdaliadau yn y Llys Sirol – gorchymyn ffioedd 3.13 £45

Ffioedd eraill y llysoedd sifil

Copïau o ddogfennau – gorchymyn ffioedd 4.1-4.2

Os byddwch yn gofyn i'r llys wneud copïau o ddogfennau, derbyn neu anfon ffacs ar eich rhan, neu ddarparu copi o ddogfen sydd eisoes wedi'i darparu:

- Ar gyfer rhwng un a deg tudalen o unrhyw ddogfen. £10
- Am bob tudalen olynol o'r un ddogfen. 50c y dudalen
- Am gopïau o ddogfennau a ddarperir ar ddisg gyfrifiadurol neu ar ffurf electronig arall. £10

Achosion costau yn unig – gorchymyn ffioedd 1.8(b)

Os yw'r partion wedi cytuno ynghylch anghydfod heb gychwyn hawliad neu ddeiseb, ond bod mater costau heb ei ddatrys, caiff unrhyw barti gychwyn hawliad am achos costau yn unig.

- Cychwyn achos costau-yn-unig. £55

Achosion asesu costau – gorchymyn ffioedd 1.8(b)

Os oes gan gleient gynrychiolaeth gyfreithiol a bod anghydfod ynghylch faint o gostau sydd i'w talu i'r cyfreithiwr, gall y cleient wneud cais i'r costau gael eu hasesu gan y llys.

- Cais am orchymyn o dan Ran 3 o Ddeddf Cyfreithwyr 1974 i asesu costau. £55

Pennu costau – gorchymyn ffioedd 5.1

Wrth ffeilio cais am asesiad manwl:

- Pan fydd y parti yn ffeilio'r cais yn derbyn cymorth cyfreithiol neu'n cael arian gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA). £220

Pan wneir y ceisiadau canlynol, mae'r ffi sy'n daladwy yn dibynnu ar faint o gostau sy'n cael eu hawlio:

- Ffeilio cais am asesiad manwl lle nad oes gan y parti sy'n ffeilio'r cais gymorth cyfreithiol nac yn cael arian gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol; neu
- Cais am ddyddiad gwrandawriad ar gyfer asesu costau yn dilyn gorchymyn o dan Ran 3 o Ddeddf Cyfreithwyr 1974

Lle mae'r costau sy'n cael eu hawlio: – gorchymyn ffioedd 5.2

hyd at £15,000	£369
£15,000.01 – £50,000	£743
£50,000.01 – £100,000	£1,106
£100,000.01 – £150,000	£1,480
£150,000.01 – £200,000	£1,848
£200,000.01 – £300,000	£2,772
£300,000.01 – £500,000	£4,620
yn fwy na £500,000	£6,160

- Apêl yn erbyn penderfyniad a wnaed mewn achos asesu manwl – gorchymyn ffioedd 5.4 £231
- Cais i gyflwyno tystysgrif costau diffygdlu – gorchymyn ffioedd 5.3 £66
- Cais i osod tystysgrif costau diffygdlu o'r neilltu – gorchymyn ffioedd 5.5 £121
- Cais i gymeradwyo tystysgrif costau sy'n daladwy o'r Gronfa Cymorth Cyfreithiol Sifil (dim ond os cafodd y cais gwreiddiol am asesiad manwl ei ffeilio cyn 1 Gorffennaf 2013 y mae hwn yn berthnasol) – gorchymyn ffioedd 2.5(b) £50

Achosion Gorfodaeth Sifil

Os yw'r llys wedi gorchymyn i rywun dalu swm o arian i chi neu i ddychwelyd eich nwyddau neu'ch eiddo neu dir, a hwythau heb wneud hynny, cewch gychwyn achos gorfodi.

Gorchymyn i gael gwybodaeth gan ddyledwr

- Cyflwyno cais am orchymyn i ddyledwr neu unigolyn arall fynychu llys er mwyn darparu gwybodaeth – gorchymyn ffioedd 8.3 £55
- Gwneud cais i Feili gyflwyno gorchymyn i ddyledwr fynychu llys ar gyfer ei holi – gorchymyn ffioedd 8A.1 £110

Warantau – gorchymyn ffioedd 8.1-8.2 ac 8.6

- Codi gwarant rheolaeth (adfer swm o arian) drwy Hawlio am Arian Ar-lein neu Ganolfan Fusnes y Llys Sirol. £77
- Codi gwarant rheolaeth (adfer swm o arian) mewn unrhyw achos arall. £110
- Codi gwarant i drosglwyddo (ar gyfer nwyddau). £121
- Codi gwarant i feddiannu (adfer eiddo neu dir). £121
- Cais am ymgais pellach i weithredu gwarant mewn cyfeiriad newydd, ac eithrio lle mae'r warant wedi'i atal dros dro. £33

Gwritiau (Uchel Lys yn unig) – gorchymyn ffioedd 7.1

- Selio gwrit rheolaeth (adfer swm o arian). £66
- Selio gwrit trosglwyddo (ar gyfer nwyddau). £66
- Selio gwrit meddiannu (adfer eiddo neu dir). £66

Os yw gwarant neu writ trosglwyddo neu feddiannu hefyd yn cynnwys hawliad am arian, nid oes ffi ychwanegol i'w thalu.

Gorchymyn atafaelu enillion – gorchymyn ffioedd 8.7

- Cais am orchymyn atafaelu enillion (mae ffi i'w thalu am bob diffynnydd y gofynnir i'r gorchymyn gael ei wneud yn ei erbyn) £110

Yn achos gorchymyn atafaelu enillion cyfun, tynnir ffi o 10c am bob £1, neu ran o £1, o'r arian sy'n cael ei dalu i'r llys cyn ei dalu i'r credydwr.

Cyfeiriwch at daflen EX323 y llys – *Atafaelu Enillion am ragor o wybodaeth*.

Gorfodi dyfarniad yn y Llys Sirol – gorchymyn ffioedd 8.9

- Cais i orfodi dyfarniad am swm o arian neu benderfyniad arall a wneir gan unrhyw Lys, Tribiwnlys, corff neu unigolyn ac eithrio'r Uchel Lys neu'r Llys Sirol neu, mewn perthynas â gorfodi dyfarniad am swm o arian, y Tribiwnlys Haen Gyntaf, yr Uwch Dribiwnlys, y Tribiwnlys Cyflogaeth neu'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth. £44

Gorfodi dyfarniad yn yr Uchel Lys – gorchymyn ffioedd 7.5

- Gofyniad neu Gais: £66
 - i gofrestru dyfarniad neu orchymyn; neu
 - caniatâd i orfodi dyfarniad cyflafareddu; neu
 - am dystysgrif neu gopi ardystiedig o ddyfarniad neu orchymyn i'w ddefnyddio dramor.

Gorchymyn arwystlo – gorchymyn ffioedd 8.4(b)

Cyfeiriwch at daflen EX325 y llys - Gorchymynion dyled trydydd parti a gorchymynion arwystlo am ragor o wybodaeth.

- Cais am orchymyn arwystlo.
(Mae ffi i'w thalu am bob gorchymyn arwystlo y gwneir cais £110 amdano).

Gorchymyn dyled trydydd parti – gorchymyn ffioedd 8.4(a)

Cyfeiriwch at daflen EX325 y llys - Gorchymynion dyled trydydd parti a gorchymynion arwystlo am ragor o wybodaeth.

- Cais am orchymyn dyled trydydd parti
(Mae ffi i'w thalu am bob parti y gofynnir i'r gorchymyn gael ei £110 wneud yn ei erbyn).

Gwŷs dyfarniad – gorchymyn ffioedd 8.5

- Cais am wŷs dyfarniad. £110

Asiant Gorfodi Ardystiedig

Cais – gorchymyn ffioedd 1.5

- Ffioedd anariannol eraill yn y Llys Sirol £308

Am holl ffioedd Sifil y Llysoedd Ynadon, edrychwch ar orchymyn ffioedd y Llysoedd Ynadon ar www.legislation.gov.uk

Ffioedd y Llys Teulu

Nid yw pob llys yn gallu delio gydag achosion teulu. Mae rhestr lawn o lysoedd, a gwybodaeth am y math o waith a wnânt, ar gael ar ein gwefan yn www.gov.uk/find-court-tribunal neu drwy ffonio eich llys lleol.

Achosion priodas a phartneriaeth sifil

- Ffeilio cais am ysgariad, dirymiad neu ddiddymu partneriaeth sifil – gorchymyn ffioedd 1.2 £550
- Ffeilio cais am ymwahaniad cyfreithiol – gorchymyn ffioedd 1.3 £365
- Ffeilio cais am ail orchymyn, gorchymyn priodasol dilynol neu orchymyn partneriaeth sifil gyda chaniatâd £95
- Ffeilio ymateb i gais am orchymyn priodasol neu orchymyn partneriaeth sifil – gorchymyn ffioedd 1.6 £245
- Ffeilio cais diwygiedig am orchymyn priodasol neu orchymyn partneriaeth sifil – gorchymyn ffioedd 1.5 £95
- Ffeilio cais i gychwyn achos pan nad oes ffi arall wedi'i phennu - gorchymyn ffioedd 1.1 £245
- Ffeilio datganiad o ran statws priodasol, teulu, cyfreithlondeb neu fabwysiadau a ddigwyddodd dramor – gorchymyn ffioedd 1.3 £365

Gorchmynion ariannol

- Cais am orchymyn ariannol, ac eithrio drwy gydsyniad – gorchymyn ffioedd 5.4 £255
- Cais am orchymyn ariannol drwy gydsyniad – gorchymyn ffioedd 5.1 £50

Ceisiadau am waharddebau

Ceisiadau'n ymwneud â thrais domestig a chartrefi teuluol:

- Cais am orchymyn rhag molestu.
- Cais am orchymyn anheddu.

Dim ffi i'w thalu

Dim ffi i'w thalu

Sylwch dim ond ymgais cyntaf yr atebydd i herio gorchymyn rhag molestu sydd am ddim. Rhaid i chi dalu ffi o £95 am unrhyw ymdrechion pellach.

Ceisiadau am Orchymyn Amddiffyn rhag Priodas Dan Orfod ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod

Nid oes ffi yn daladwy gan geisydd i gychwyn achosion Gorchymyn Priodas Dan Orfod neu Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod neu i wneud cais i ddiwygio, amrywio neu ymestyn gorchymyn.

- Mae ymgais cyntaf yr atebydd i herio gorchymyn yn rhad ac am ddim ond codi'r ffi am unrhyw geisiadau pellach. £95

Plant

Mae taflen y llys '*CB1 - Gwneud Cais - Plant a'r Llys Teulu*' yn rhoi rhagor o wybodaeth am y mathau o geisiadau dan y Ddeddf Plant a phwy sy'n gallu eu gwneud. Isod ceir crynodeb o'r ceisiadau mwyaf cyffredin:

Ceisiadau dan Ddeddf Plant 1989 – gorchymyn ffioedd 2.1

- Unrhyw geisiadau newydd o dan Ddeddf Plant 1989 i ofyn am ganiatâd i gychwyn achos neu am orchymyn neu gyfarwyddiadau i'w gwneud ynghylch y plentyn/plant h.y. Gorchymyn Trefniadau Plentyn, Gorchymyn Camau Gwaharddedig, Gorchymyn Mater Penodol neu Orchymyn Gwarcheidwadaeth Arbennig - ac eithrio ceisiadau am orchymynion gofal a goruchwyliaeth sy'n cael eu cychwyn gan Awdurdodau Lleol. £215
- Cais am orchymyn gorfodi o dan Ddeddf Plant 1989 neu orchymyn am iawndal am golled ariannol, o ganlyniad i chwalu'r gorchymyn trefniadau plentyn. £215
- Cais i ddiddymu, diwygio, ymestyn neu weithredu yn dilyn torri amodau gorchymyn gorfodi presennol o dan Ddeddf Plant 1989. £95

O ran gorchmynion ffioedd teulu, dim ond ar ddau achlysur mae £245 yn daladwy ac nid yw Achosion o dan Ddeddf Plant 1989 yn un ohonynt. Yr amodau yw:

- Ffi 1.1 gorchymyn ffioedd teulu - Ffeilio cais i gychwyn achos pan nad oes unrhyw ffi arall wedi'i nodi. £245
- Ffi 1.6 gorchymyn ffioedd teulu - Ffeilio ymateb i gais am orchymyn priodasol neu orchymyn partneriaeth sifil £245

Mae ceisiadau i gychwyn achos newydd o dan Ddeddf Plant 1989 yn cael eu diffinio fel unrhyw gais am orchymyn lle nad oes achos yng nghyswllt y plentyn/plant yn cael ei ystyried ar y pryd gan y llys. Os oes achosion dan Ddeddf Plant 1989 eisoes yn cael eu hystyried yng nghyswllt y plentyn/plant, codir y ffi gwneud cais am geisiadau o fewn achos. Gweler yr adran 'Ceisiadau mewn Achosion' i gael rhagor o fanylion.

Sylwch, dylid gwneud cais am orfodaeth yn gyntaf gyda ffi o £215 a dim ond wedyn y gellir gwneud cais am £95 am fethu â chydymffurfio â ffi.

Mabwysiadu – gorchymyn ffioedd 3.1-3.3

- Wrth gyflwyno cais am ganiatâd, neu orchymyn £170

Mae ffeilio un plentyn neu fwy nag un brawd a chwaer gyda'i gilydd yn un ffi o £170. Os cânt eu ffeilio ar wahân, ac ar adegau gwahanol, yna mae'r ffi o £170 yn daladwy bob amser.

- Cais am orchymyn lleoli (adran 22) £455

Mae ffeilio un plentyn neu fwy ag un brawd a chwaer gyda'i gilydd yn un ffi o £455. Os cant eu ffeilio ar wahân, ac ar adegau gwahanol, yna mae'r ffi o £455 yn daladwy bob amser.

- Diddymu ffi lleoli £170

Dim ond un ffi sy'n daladwy os byddwch yn cychwyn ceisiadau ar gyfer brodyr a chwiorydd ar yr un pryd.

Ceisiadau o dan y Ddeddf Plant a mabwysiadu

Pan wneir cais, neu os ceir caniatâd o dan ddau neu fwy o ddarpariaethau Deddf Plant 1989 neu Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002, neu Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2006, dim ond un ffi sydd i'w thalu, ac os yw'r ffioedd yn wahanol, y ffi uchaf sy'n cael ei thalu.

Gorchmynion cynhaliaeth

Gweler yr adran achosion gorfodi yn y Llys Teulu (tudalen 20 a 21) i gael manylion am y ffioedd sy'n berthnasol wrth wneud cais am orchymyn i orfodi gorchymyn talu arian. Os ydych yn dymuno amrywio Gorchymyn Cynhaliaeth cyfredol, gweler yr adran Ceisiadau mewn Achosion.

Ceisiadau mewn achosion

- Cais ar rybudd pan nad oes ffi arall wedi'i phennu – gorchymyn ffioedd 5.3 £155
- Mae gyda rhybudd yn golygu hysbysu'r ochr arall am y cais, ni waeth os oes gwrandawriad ai peidio.
- Mae heb rybudd yn golygu peidio â hysbysu'r partïon eraill am y cais, ni waeth os oes gwrandawriad ai peidio.

- Cais drwy gydsyniad neu heb rybudd lle nad oes ffi arall wedi'i phennu, h.y. cais i ddad-restru neu ohirio gwrandawriad – gorchymyn ffioedd 5.1 £50
- Mae gyda rhybudd yn golygu hysbysu'r ochr arall am y cais, ni waeth os oes gwrandawriad ai peidio.
- Mae heb rybudd yn golygu peidio â hysbysu'r partïon eraill am y cais, ni waeth os oes gwrandawriad ai peidio.

Apeliadau

Wrth ffeilio hysbysiad o apêl:

- Wrth ffeilio hysbysiad o apêl oddi wrth farnwr rhanbarth, un neu fwy o ynadon lleyg (Ynadon), cleric ynadon neu gynorthwydd i glerc ynadon ac eithrio apêl yn erbyn penderfyniadau o dan Ddeddf Plant 1989 - gorchymyn ffioedd 6.1

Os ydych yn cychwyn ceisiadau ar gyfer brodyr a chwiorydd ar yr un pryd, dim ond un ffi sy'n daladwy.

- Ynghylch unrhyw ddarpariaeth yn Neddf Plant 1989, ac eithrio yng nghyswllt apeliadau am dorri neu ddiddymu gorchymyn gorfodi - gorchymyn ffioedd 2.3-2.4 £215

Cais y Llys Teulu am wasanaeth – gorchymyn ffioedd 15.1

- Cais i unrhyw ddogfen gael ei chyflwyno gan Feili. £45
- Cais i feili gyflwyno, ar ran y ceisydd neu geisydd trydydd parti, ceisiadau am orchymyn rhag molestu, gorchymyn anheddu, gorchymyn amddiffyn rhag priodas dan orfod neu orchymyn amddiffyn rhag anffurfio organau cenhedlu benywod. Dim ffi i'w thalu

Ffioedd eraill y llys teulu

Copïau o ddogfennau – gorchymyn ffioedd 8.1-8.2

Os byddwch yn gofyn i'r llys wneud copïau o ddogfennau, derbyn neu anfon ffacs ar eich rhan, neu ddarparu copi o ddogfen sydd eisoes wedi'i darparu:

- Ar gyfer rhwng un a deg tudalen o unrhyw ddogfen. £10
- Am bob tudalen olynol o'r un ddogfen. 50c y dudalen
- Am gopïau o ddogfennau a ddarperir ar ddisg gyfrifiadurol neu ar ffurf electronig arall. £10

Pennu costau'r Llys Teulu – gorchymyn ffioedd 9.1-9.5

Wrth ffeilio cais am asesiad manwl:

- Pan fydd y parti yn ffeilio'r cais yn cael cymorth cyfreithiol neu'n cael arian gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA). £94

Pan wneir y ceisiadau canlynol, mae'r ffi yn dibynnu ar faint o gostau sy'n cael eu hawlio:

- Ffeilio cais am asesiad manwl lle nad oes gan y parti sy'n ffeilio'r cais gymorth cyfreithiol nac yn cael arian gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol; **neu**

- Cais am ddyddiad gwrandawriad ar gyfer asesu costau yn dilyn gorchymyn o dan Ran 3 o Ddeddf Cyfreithwyr 1974 lle mae'r costau sy'n cael eu hawlio:

hyd at £15,000	£335
£15,000.01 – £50,000	£675
£50,000.01 – £100,000	£1,005
£100,000.01 – £150,000	£1,345
£150,000.01 – £200,000	£1,680
£200,000.01 – £300,000	£2,520
£300,000.01 – £500,000	£4,200
yn fwy na £500,000	£5,600

- Apêl yn erbyn penderfyniad a wnaed mewn achos asesu manwl £210
- Cais i gyflwyno tystysgrif costau diffygdlu. £60
- Cais i osod tystysgrif costau diffygdlu o'r neilltu. £110

Achosion gorfodi yn y Llys Teulu

Os yw'r llys wedi gorchymyn i rywun dalu swm o arian i chi neu i ddychwelyd eich nwyddau neu'ch eiddo neu dir, a hwythau heb wneud hynny, cewch gychwyn achos gorfodi.

Math o orfodaeth y gall y Llys ystyried yn briodol

-gorchymyn ffioedd 5.1

- Cais yn y llys teulu ar gyfer gorchymyn am y math o orfodaeth gall y llys ei ystyried yn briodol. £50

Gorchymyn i gael gwybodaeth gan ddyledwr - gorchymyn ffioedd 12.1

- Cyflwyno cais am orchymyn i ddyledwr neu unigolyn arall fynychu llys er mwyn darparu gwybodaeth. £50
- Gwneud cais i Feili gyflwyno gorchymyn i ddyledwr fynychu llys ar gyfer holi. £100

Atafaelu enillion - gorchymyn ffioedd 12.5

- Cais am orchymyn atafaelu enillion (mae ffi i'w thalu am bob diffynnydd y gofynnir i'r gorchymyn gael ei wneud yn ei erbyn). £34

Gorchymyn arwystlo - gorchymyn ffioedd 12.3

- Cais am orchymyn arwystlo. (Mae ffi i'w thalu am bob gorchymyn arwystlo y gofynnir amdanynt). £38

Gŵys dyfarniad - gorchymyn ffioedd 12.4

- Cais am wŷs dyfarniad. £73

Gorchymyn dyled trydydd parti

- Cais am orchymyn garnisio neu ddyled trydydd parti/ Penodi Derbynnnydd (Mae ffi i'w thalu am bob parti y gofynnir i'r gorchymyn gael ei wneud yn ei erbyn) – gorchymyn ffioedd 12.2 £77
- Cais i orfodi dyfarniad neu orchymyn – gorchymyn ffioedd 13.1 £100

Ffioedd Gwarantau Rheolaeth

- Cais am orfodi gwarant mewn cyfeiriad newydd - gorchymyn ffioedd 13.2 £30
- Codi gwarant i feddiannu neu warant trosglwyddo - gorchymyn ffioedd 13.3 £110
- Codi gwarant rheolaeth (adfer swm o arian) £100

Gorfodi yn yr Uchel Lys - gorchymyn ffioedd 14.1-14.2

- Selio gwrit rheolaeth/meddiannu/trosglwyddo £60
- Gofyn/Cais am gofrestru dyfarniad neu orchymyn £60

Chwiliadau - gorchymyn ffioedd 7.1-7.3

Mynegai dyfarniadau absoliwt neu orchmynion terfynol

Chwilio'r mynegai ar gyfer unrhyw gyfnod penodol o ddeng mlynedd calendr neu'r deng mlynedd fwyaf diweddar.

- Chwilio'r mynegai canolog cenedlaethol o ddyfarniadau absoliwt/gorchmynion terfynol £65
- Chwilio'r mynegai canolog cenedlaethol o gytundebau cyfrifoldeb rhiant £45
- Chwilio unrhyw fynegai dyfarniadau absoliwt/gorchmynion terfynol mewn llys teulu penodol neu Gofrestrfa Ddosbarth . £45

Mae'r ffi yn cynnwys copi o'r cytundeb, os yw'n briodol.

Os oes angen y daflen hon arnoch mewn fformat arall, er enghraifft mewn print bras, cysylltwch â'ch llys lleol i gael help.

Os oes gennych anabledd sy'n peri ei bod yn anodd mynd i lys neu gyfathrebu, cysylltwch â'r llys perthnasol a byddant yn gallu'ch helpu.

Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer yr holl lysoedd ar-lein yn **www.gov.uk/find-court-tribunal**